# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd y Jiráff Gwyrdd**

**Meithrinfa Ddydd y Jiráff Gwyrdd**
**2 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

03/02/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â Meithrinfa Ddydd y Jiráff Gwyrdd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Andrea McCormack |
| Lleoedd cofrestredig | 96 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Chwefror 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. |

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19. Felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y gwasanaeth hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn setlo'n dda ac yn teimlo'n ddiogel yn y feithrinfa. Mae cydberthnasau cynnes a chefnogol amlwg rhwng y plant a'r staff ac mae'n glir bod y staff yn adnabod y plant yn dda. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r arferion newydd sydd ar waith o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae'r rhan fwyaf o'r plant wedi addasu'n llwyddiannus yn ystod cyfnod o newid, am fod yr un aelodau o'r staff yn darparu'r sicrwydd a'r cysondeb sydd eu hangen. Mae'r staff yn darparu amrywiaeth briodol a deniadol o weithgareddau a phrofiadau i'r plant, sy'n hyrwyddo chwilfrydedd, chwarae a dysgu. Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn ddeniadol. Mae wedi'i drefnu'n dda er mwyn cynnal 'swigod' ar wahân, yn unol â'r canllawiau cyfredol ar reoli heintiau. Mae trefniadau monitro gweithredol ar waith er mwyn sicrhau bod y feithrinfa yn ymateb i newidiadau a chanllawiau. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y feithrinfa yn effeithiol ac mae'r staff yn teimlo bod y rheolwyr yn gwrando arnynt ac yn darparu cymorth da.

## Llesiant

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, ac nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn. Felly, nid ydym wedi cyflwyno na diwygio unrhyw raddau a ddyfarnwyd yn flaenorol.

Mae'r plant yn mynegi eu barn yn rhydd ac mae pob ymgais i gyfathrebu'n cael ei gwerthfawrogi. Maent yn hyderus i ofyn am help neu gymorth emosiynol pan fo angen. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Mae rhai o'r plant sydd wedi bod gartref gyda'u rhieni yn ystod y cyfyngiadau symud yn ei chael hi'n fwy anodd bod ar wahân i'w rhieni. Caiff anghenion unigol y plant eu blaenoriaethu ac maent yn cael lefel briodol o ofal. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau emosiynol â'u gofalwyr, sy'n cymryd amser i ddeall eu dewisiadau a'u teimladau. Mae'r plant yn hapus ac wedi ymlacio, ac maent yn meithrin ymdeimlad o berthyn drwy fynychu'r feithrinfa. Maent yn cael gofal cyson sy'n meithrin eu hunan-barch.

## Gofal a Datblygiad

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, ac nid ydym wedi ystyried y thema hon. Felly, nid ydym wedi cyhoeddi na diwygio unrhyw raddau a ddyfarnwyd yn flaenorol.

## Yr Amgylchedd

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, ac nid ydym wedi ystyried y thema hon. Felly, nid ydym wedi cyhoeddi na diwygio unrhyw raddau a ddyfarnwyd yn flaenorol.

## Arwain a Rheoli

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, ac nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn. Felly, nid ydym wedi cyhoeddi na diwygio unrhyw raddau a ddyfarnwyd yn flaenorol.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y feithrinfa yn effeithiol, a chaiff cyfrifoldebau eu rhannu rhwng y person cofrestredig, rheolwr y feithrinfa a'r arweinwyr tîm. Mae'r staff yn glir ynghylch at bwy y dylent fynd i drafod unrhyw faterion. Gwnaethom siarad â sawl aelod o'r staff a ddywedodd eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rôl. Mae'r staff yn fodlon ar yr ap digidol newydd a ddefnyddir i rannu gwybodaeth â diweddariadau â'r tîm. Mae'r staff yn gyfarwydd â'r holl bolisïau a gweithdrefnau am fod modd cael gafael arnynt yn hawdd ar yr ap newydd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn mynegi eu disgwyliadau'n glir i'r staff yn ystod cyfnod sefydlu cadarn. Mae sesiynau goruchwylio rheolaidd neu sgyrsiau am swyddi ag aelodau unigol o'r staff yn cynnig cyfleoedd gwych i staff y feithrinfa gael adborth ar eu perfformiad. Mae'r cyfarfodydd hyn hefyd yn gyfle i'r staff rannu gwybodaeth â'u rheolwyr. Mae'r staff yn deall eu bod yn rhydd i ddefnyddio'r weithdrefn chwythu'r chwiban ar unrhyw adeg, ac maent yn teimlo'n hyderus i wneud hyn os bydd angen.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ymrwymedig i gynnal y cymarebau staff i blant cywir. Maent yn gweithio'n galed er mwyn sicrhau bod yr un aelodau o'r staff yn gyfrifol am yr un grŵp o blant. Yn ystod pandemig COVID-19, mae staff o feithrinfeydd eraill y Jiráff Gwyrdd yn cyflenwi ar gyfer staff sy'n absennol am gyfnod cyfyngedig. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cymryd gofal i gynnal gweithdrefnau rheoli heintiau bob amser.

Mae datganiad o ddiben ar waith sy'n rhoi darlun cywir o'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig. Mae'r datganiad hwn yn galluogi darpar rieni i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch defnyddio'r feithrinfa.

### Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Dim

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni** | |
|---|---|
| Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau ei bod wedi cael dau eirda ar gyfer pob cyflogai a'i bod hi'n fodlon ar ddilysrwydd y geirdaon hynny. | Rheoliad 28 (1) (a) |

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei Gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu ar unwaith** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd y mae angen eu gwella** | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/04/2021